

## C4. Arwain newid

### Crynodeb o'r Uned

#### Beth yw cwmpas yr uned?

Mae 'newid', ar ei amrywiol ffurfiau, yn digwydd yn amlach nag a fu o fewn sefydliadau. Gall yr hyn sy'n achosi newid ddod o'r tu mewn neu'r tu allan i'r sefydliad, neu gall fod yn gymysgedd o'r ddau. Gall fod yn adwaith i ddigwyddiadau neu'n ymgais i wella'r sefydliad ar gyfer y dyfodol.

Mae'r uned hon yn adlewyrchu'r angen, mewn sawl sefyllfa, am rywun i gymryd y llyw a bod yn arweinydd o fewn y sefydliad cyfan neu ran o sefydliad ar gyfer newid penodol neu raglen ehangach o newid. Mae'n ymwneud â gwerthu'r weledigaeth o ran amcanion y newid, ac â chefnogi'r bobl sy'n ymwneud ag agweddau ymarferol ar wireddu'r weledigaeth.

#### Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr canol ac uwch reolwyr.

#### Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **C5. Cynllunio newid**, **C6. Rhoi newid ar waith**, **B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb a B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad** yng nghyffres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

#### Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth arwain newid. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu
- Gwneud penderfyniadau
- Cymell
- Dirprwyo
- Trafod telerau
- Dylanwadu
- Datrys problemau
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Gosod amcanion
- Blaenoriaethu

## **C4. Arwain newid**

### **Canlyniadau perfformiad effeithiol**

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Cyfleu eich gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, y rhesymau dros y newid a'r manteision cysylltiedig i bawb dan sylw.
2. Annog pawb dan sylw i groesawu newid a'i ystyried yn gyfle.
3. Sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am gynllunio newid a'i roi ar waith yn deall eu cyfrifoldebau a'u bod â'r dylanwad a'r grym angenrheidiol.
4. Gosod a blaenoriaethu amcanion ar gyfer y newid.
5. Nodi strategaethau ar gyfer cyflawni'r weledigaeth, a'u cyfleu yn eglur i bawb dan sylw.
6. Cefnogi pobl trwy gydol y broses newid.
7. Rhoi gwybod am gynnydd i bawb dan sylw a dathlu cyflawniad.
8. Nodi rhwystrau i newid a delio â nhw.

### **Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol**

1. Byddwch yn rhoi cyfleoedd i bobl roi adborth a byddwch yn ymateb yn briodol
2. Byddwch yn dod i gytundeb clir ynglyn â'r hyn y disgwylir i eraill ei gyflawni ac yn eu dal yn gyfrifol am hyn
3. Byddwch yn cyfleu gweledigaeth sy'n cynhyrchu cyffro, brwdfrydedd ac ymrwymiad
4. Byddwch yn ysbrydoli pobl eraill, yn cefnogi gwaith i gyflawni nodau cyffredin
5. Byddwch yn sensitif i anghenion a buddiannau budd-ddeiliaid ac yn rheoli'r rhain yn effeithiol
6. Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau arwain sy'n briodol i wahanol bobl a gwahanol sefyllfaoedd
7. Byddwch yn nodi goblygiadau neu ganlyniadau sefyllfa
8. Byddwch yn gwneud ac yn gweithredu penderfyniadau anodd a/neu amhoblogaidd os bydd angen

## **C4. Arwain newid**

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth**

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

#### **Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth**

1. Y prif fodelau a dulliau ar gyfer arwain newid cyfundrefnol, a'u cryfderau a'u gwendidau
2. Y berthynas rhwng newid trawsffurfiol a newid gweithrediadol
3. Theori y gromlin newid/perfformiad, a sut i'w chymhwyso
4. Egwyddorion asesiad risg, a sut i'w gymhwyso
5. Gwahanol arddulliau arwain a ffyrdd o ymddwyn, eu cryfderau a sut i ddefnyddio'r arddull sy'n briodol i wahanol amgylchiadau
6. Sut i wneud penderfyniadau tyngedfennol
7. Y rhwystrau gwleidyddol a biwrocraataidd i newid, a'r rhwystrau o ran adnoddau, a'r technegau ar gyfer delio â'r rhain
8. Gwahanol ddulliau o gyfathrebu a'u cryfderau a'u gwendidau perthnasol mewn gwahanol amgylchiadau
9. Y prif dechnegau ar gyfer datrys problemau, a sut i'w cymhwyso
10. Disgwyliadau budd-ddeiliaid a sut maen nhw'n dylanwadu ar y broses newid

#### **Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector**

1. Sefyllfa gyfredol eich sefydliad yn y sector a'r farchnad y mae'n gweithredu ynddi, o'i gymharu â'i brif gystadleuwyr, sy'n berthnasol i'r rhaglen newid
2. Yr amrediad ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch sector chi, a sectorau cysylltiedig, y mae'ch sefydliad yn gweithredu ynddo
3. Datblygiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol, yn rhai cyfredol ac yn rhai sy'n dod i'r amlwg yn y sector ac mewn sectorau cysylltiedig

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun**

1. Eich gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, y rhesymau dros newid, y risgiau a'r manteision disgwylidig
2. Y ffactorau hynny (er enghraifft strategaeth, gweithdrefnau, polisiau a strwythur) y mae angen eu newid, a'r blaenoriaethau a'r rhesymau cysylltiedig
3. Gwybodaeth, sgiliau ac agweddau gweithwyr
4. Faint o amser y bydd yn ei gymryd i wneud y newidiadau
5. Diwylliant y sefydliad a goblygiadau hyn i'r broses newid
6. Sianelau cyfathrebu eich sefydliad, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol